

Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru [SCWWDP] a Chronfa Cyfleoedd i Ddysgu Ymarfer [PLOF]

1. Pwy yw ein rhanddeiliaid?

Mae tua 190 o ddarparwyr gwasanaethau Oedolion a Phlant a sefydliadau rhanddeiliaid ledled Sir Gaerfyrddin. Mae'r tîm SCWWDP yn cyfarfod â rhanddeiliaid allweddol ac ystod eang o ddarparwyr gofal er mwyn cynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddi ar draws y sector.

Mae **Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru** yn darparu llywodraethu strategol ac yn gyfrifol am ymgynghori â'r sector drwy ei Bwrdd Strategaeth Gweithlu Rhanbarthol.

Rhanddeiliad Allweddol	Cwmpas
Cyfarwyddwr – Yr Adran Cymunedau	<ul style="list-style-type: none">Arweinydd statudol
Cyfarwyddwr Rhanbarthol Arweiniol dros y Gweithlu	<ul style="list-style-type: none">Arweinydd SCWWDP Rhanbarthol
Tîm SCWWDP	<ul style="list-style-type: none">Yr holl ddarpariaeth Gweithlu Dysgu a Datblygu SCWWDP a PLOF a ariennir
Penaethiaid gwasanaethau	Plant a Phobl Ifanc, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a Gwasanaethau Integredig
Hyfforddiant/Rheolwyr Gweithlu Cymru Gyfan	<ul style="list-style-type: none">Rheolwyr ac arweinwyr grant SCWWDP
Gofal Cymdeithasol Cymru	<ul style="list-style-type: none">Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gweithlu a Rheoli Grantiau SCWWDP
Addysg a Gwella Iechyd Cymru	<ul style="list-style-type: none">Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gweithlu
Bwrdd Strategaeth Gweithlu Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru	<ul style="list-style-type: none">Cydweithio ac integreiddio rhanbarthol ac ymgynghori â'r sector/llywodraethu grant
Bwrdd Diogelu Rhanbarthol/Bwrdd Rhanbarthol VAWASW	<ul style="list-style-type: none">Diogelu Statudol a VAWASW
Coleg Sir Gâr, Coleg Sir Benfro a Choleg Ceredigion	<ul style="list-style-type: none">Addysg Bellach ac Addysg Uwch
Prifysgol Abertawe a'r Drindod Dewi Sant	<ul style="list-style-type: none">Addysg Bellach ac Addysg Uwch
Bwrdd Iechyd Hywel Dda	<ul style="list-style-type: none">Cydweithio ac integreiddio rhanbarthol
Fforwm Gofalwyr	<ul style="list-style-type: none">Gofalwyr Sir Gaerfyrddin

2. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwy wneud y canlynol:

- Mabwysiadu model partneru busnes gyda phob maes gwasanaeth a rhanddeiliad allweddol.
- Dadansoddi anghenion hyfforddi a gwerthuso'r ddarpariaeth hyfforddiant yn flynyddol gydag ystod o ddarparwyr.
- Cyfrannu at yr holl Fforymau i Ddarparwyr; Fforymau Gofalwyr a Defnyddwyr Gwasanaeth a digwyddiadau Partneriaeth a'r gweithlu lleol, hyfforddiant a chyfarfodydd strategol.
- Defnyddio cyfryngau electronig i ymgynghori a chynnal cyfathrebu dwy ffordd gyda'r holl rhanddeiliaid fel y bo'n briodol.
- Defnyddio arolygon ac archwiliadau, cefnogi ymgynghoriad cenedlaethol i gasglu adborth gan rhanddeiliaid Sir Gaerfyrddin.
- Cynnal grwpiau ffocws fel y bo'n briodol i lywio strategaeth ar gyfer gweithlu'r dyfodol.
- Cydweithio â Gofal Cymdeithasol Cymru, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, partneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol/Datblygu'r Gweithlu ehangach i drefnu digwyddiadau a chynadledau rhanbarthol.

3. Byddwn ni'n lledaenu gwybodaeth trwy wneud y canlynol:

- Cynhyrchu dogfennau dwyieithog yn unol â pholisi Iaith Gymraeg CSC.
- Codi ymwybyddiaeth o wefan SCWWDP a'r wybodaeth sydd ar gael yno.
- Sicrhau bod y wefan yn cynnwys gwybodaeth amserol a pherthnasol.
- Defnyddio rhestr bostio'r rhaglen i gyflwyno detholion gwybodaeth a rhaedru gwybodaeth am gyfleoedd dysgu priodol. Ein bwriad yw cyhoeddi taflenni ar gyfer y cwrs 8 wythnos cyn yr holl ddigwyddiadau a drefnir.
- Gweithio gyda phartneriaid allweddol i gael mynediad i'w sianeli cyfathrebu a'u hyrwyddo.